

Hysbysiad penodi
BWRDD TALIADAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Mae Mesur (Taliadau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010 yn sefydlu Corff Adolygu Annibynnol Statudol – **Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – i wneud penderfyniadau am bob agwedd ar y cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad.

Yn unol ag adran 20(4) o'r Mesur hwnnw, rwyf yn hysbysu, drwy hyn, bod Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penodi aelodau o'r Bwrdd Taliadau. Yr aelodau a benodwyd yw:

- Y Gwir Anrhydeddus George Reid – Cadeirydd
- Sandy Blair
- Mary Carter
- Stuart Castledine
- Yr Athro Monojit Chatterji

Drwy osod yr hysbysiad hwn, daw holl ddarpariaethau Mesur (Taliadau) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010 (heblaw'r rhai sydd eisoes mewn grym) i rym ar 24 Medi 2010 (drannoeth y diwrnod y gosodwyd yr hysbysiad hwn).

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
23 Medi 2010